**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 3 Mehefin 2015.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo].***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Ann Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones, Raymond Jones, Nicola Roberts |
| **Ymddiheuriadau** | Dim |

1.00 pm – 4.25 pm

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION CYFARFOD 13 MAI, 2015** |
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar y dyddiadau isod:**<br><br>• **13 Mai 2015**<br>• **14 Mai 2015 (ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion yr ymweliadau safleoedd cynllunio a gynhaliwyd ar 20 Mai 2015.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | **Nid ystyriwyd yr un cais yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 14LPA1010/CC – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir yn Cefn Trefor, Trefor.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**7.2 16C197A – Cais llawn i ddymchwel y sied gyfredol ynghyd â chodi annedd newydd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Dridwen, Bryngwran**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac fel yr adroddwyd arno yn y cyfarfod.**<br><br>**7.3 19C690C – Cais llawn i altro ac ymestyn 14 Cae Braenar, Caergybi**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**7.4 34C553A – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad trigiannol, priffyrdd ac isadeiledd cysylltiedig yn Ty'n Coed, Llangefni.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**7.5 34LPA1009/CC – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw yn ôl ar dir ger Saith Aelwyn, Rhosmeirch**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig a'r newid i'r adroddiad y soniwyd amdano yn y cyfarfod.**<br><br>**7.6 33C338 – Cais amlinellol i godi annedd gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir gyferbyn ag Ysgol Henblas, Llangristiolus.**<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau eu hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 22C224 – Cais amlinellol i godi annedd ynghyd â manylion llawn am y fynedfa ar dir ger Tan y Ffordd Isaf, Llanddona**<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**11.2 4583C/DEL – Cais dan Adran 73 i wneud i ffwrdd ag amod (05) (bydd y gweithdy'n cael ei defnyddio er budd Mr T W Owen a phan na fydd ef ei angen mwyach, bydd yn cael ei ddefnyddio i bwrpas amaethyddiaeth) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod 45C83A (codi gweithdy) yn Trewen, Penlon, Niwbwrch.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 9C1145 – Cais llawn i godi rhandy yn Harbour View Bungalow, Ffordd Turkey Shore, Caergybi.**<br><br>**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog ac am y rhesymau a roddwyd.** |

| | |
|---|---|
| | **12.2 20C289A/DEL - Cais dan Adran 73 i wneud i ffwrdd ag amod (03) (caniatâd dros dro) o gais gynllunio cyfeirnod 20C289 (Gosod cloch "Amser a Llanw") yn y Blaen traeth, ger yr harbwr, Cemaes.**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog.**<br><br>**12.3 25C28C - Cais llawn i ddymchwel y dafarn bresennol a'r adeiladau cysylltiedig yn y Bull Inn, Llannerch-y-medd.**<br><br>**Penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad ar y cais fel y gallai'r Cyngor gael sylwadau'r Swyddog Cadwraeth ar y Bull Inn, Llannerch-y-medd** *(Ni wnaeth y Cynghorydd John Griffith bleidleisio ar y cais).*<br><br>**12.4 36LPA827B/CC – Cais llawn i godi sied amaethyddol yn Bodhenlli, Cerriceinwen**<br><br>**Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a restrwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **13.1 46C427K/TR/EIA/ECON – Parc Arfordirol Penrhos, Cae Glas a Kingsland, Caergybi**<br><br>**Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi'r ymrwymiadau a fydd yn cael eu diogelu dan gytundeb yn unol ag adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n unol â'r Penawdau Telerau a awdurdodwyd gan y Pwyllgor ar 6 Tachwedd 2013.**<br>• **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pholisi cynllunio a'r wybodaeth amgylcheddol bellach gan gynnwys ymgynghori ac ymatebion eraill a dderbyniwyd ac fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br>• **Yn wyneb yr uchod, cymeradwyo'r penderfyniad blaenorol a rhoddi'r awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio gwblhau telerau'r cytundeb adran 106 a'r amodau.**<br>• **Bod adroddiad yn dod yn ôl i'r Pwyllgor** |

| | |
|---|---|
| | **unwaith y bydd telerau'r cytundeb 106 wedi cael eu cwblhau a hynny cyn cwblhau'r cytundeb cyfreithiol a rhyddhau caniatâd cynllunio.** |